# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a salwch terfynol: Amcangyfrifon cost

Briff Technegol

**Rhagfyr 2025**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Dylid darllen y briff hwn ar y cyd â'r prif friff technegol ynghylch ein hargymhelliad i gynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn y cynllun gostyngiadau i'r dreth gyngor.

1.2. Mae'r briff hwn yn nodi rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu costau amcangyfrifedig ar gyfer y cynnig polisi yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, ac yna'n nodi costau amcangyfrifedig yn seiliedig ar nifer o dybiaethau.

1.3. Felly, dylid trin y costau hyn fel yr amcangyfrif gorau er mwyn rhoi syniad o gost bosibl y newid polisi.

## 2. Heriau, cyfyngiadau a rhagdybiaethau data

2.1. Mae amcangyfrif costau posibl y cynnig polisi hwn yn heriol, oherwydd nifer o ffactorau anhysbys a diffyg data perthnasol. Dylid darllen y ffigurau gyda'r cyfyngiadau canlynol mewn cof.

2.2. Nid yw'n bosibl amcangyfrif faint o bobl sy'n byw gyda salwch terfynol sy'n byw ar eu pennau eu hunain o'r data presennol. Yn ein model ni, defnyddir data Cyfrifiad 2021 fel procsi, sy'n dangos bod 31.9% o aelwydydd yng Nghymru yn aelwydydd un person.

2.3. Nid oes data ar gael chwaith am faint o bobl sy'n byw gyda salwch terfynol sydd eisoes yn derbyn gostyngiadau'r dreth gyngor. Yn ein model rydym yn defnyddio dau bwynt data fel procsi i ystyried y tebygolrwydd y bydd rhai pobl sy'n byw gyda salwch terfynol eisoes yn derbyn gostyngiadau'r dreth gyngor oherwydd eu bod yn derbyn budd-daliadau eraill:

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

- Mae data gan Sefydliad Bevan yn amcangyfrif bod 21% o bensiynwyr y wladwriaeth yn gymwys i gael credyd pensiwn.
- Mae data gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Senedd y DU yn nodi bod 25.5% o gartrefi oedran gweithio yng Nghymru yn derbyn Credyd Cynhwysol.

2.4. Mae data hefyd yn gyfyngedig o ran pa fandiau treth gyngor y bydd pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn ddarostyngedig iddynt. Mae ein model yn defnyddio data am gyfran yr aelwydydd ym mhob band treth gyngor, ar gyfer pob awdurdod lleol, i bennu amcangyfrif.

2.5. O ganlyniad i'r cyfyngiadau a'r rhagdybiaethau hyn, mae'n debygol y bydd y costau a gyflwynir isod ar ben uwch costau posibl y newid polisi hwn.

## 3. Ffynonellau Data

| Data | Ffynhonnell |
|---|---|
| **Pobl sy'n byw gyda salwch terfynol** | Yn seiliedig ar ffigurau o Brifysgol Loughborough a baratowyd fel rhan o Gyfres Marie Curie Dying in Poverty. Mae'r ffigurau'n ymwneud â 2023-24. |
| **Lefelau Cyfartalog y Dreth Gyngor** | Stats Cymru "Lefelau Treth Gyngor yn ôl blwyddyn a band"<br>Ffigurau a ddefnyddiwyd: 2023-24 |
| **Cyfran yr anheddau ym mhob band treth gyngor** | Stats Cymru "Cyfran yr anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl band a blwyddyn (y cant)"<br>Ffigurau a ddefnyddiwyd: 2023-24 |
| **Cyfanswm Gwariant CTRS 2023-24** | *Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Adroddiad blynyddol 2023 i 2024* Llywodraeth Cymru |
| **Cymhwysedd Credyd Pensiwn** | Sefydliad Bevan *State of Wales Briefing: Pensioners and Winter Fuel Payment* 2024 |
| **Cyfradd Credyd Cynhwysol** | Data Etholaethau Tŷ'r Cyffredin: Hawlwyr credyd cynhwysol (data Chwefror 2025) |
| **Aelwydydd un person** | SYG *People's living arrangements in England and Wales: Census 2021* |

## 4. Cyfrifo aelwydydd cymwys

4.1. Er mwyn cyfrifo nifer yr aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth o dan y cynnig polisi hwn, cymerwyd y camau canlynol:

- Gostyngwyd nifer y bobl o oedran pensiwn ac ar ddiwedd oes 21% i gyfrif am y gyfran sy'n debygol o fod yn gymwys i gael credyd pensiwn ac felly eisoes yn derbyn gostyngiadau i'w treth gyngor.
- Gostyngwyd nifer y bobl o oedran gweithio ar ddiwedd oes 25.5% i gyfrif am y gyfran a allai fod yn derbyn Credyd Cynhwysol ac felly eisoes yn derbyn gostyngiadau i'w treth gyngor.

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

4.2. I benderfynu pa gyfran o aelwydydd cymwys sy'n byw ar bob lefel treth gyngor, tybir bod cyfran yr aelwydydd ym mhob band treth gyngor yn cyd-fynd â chyfran yr aelwydydd ym mhob band treth gyngor ar gyfer yr awdurdod lleol. Er enghraifft:

- Mae 653 o bobl ar ddiwedd eu hoes yn byw ym Mlaenau Gwent, sy'n gymwys i gael gostyngiadau'r dreth gyngor o dan ein cynnig.
- Ym Mlaenau Gwent mae 58% o'r eiddo yn Fand A.
- Felly, tybir bod 58% o bobl gymwys ar ddiwedd oes yn byw mewn eiddo Band A.

## 5. Amcangyfrif o Gostau

5.1. Mae ein model yn seiliedig ar y 34,200 o bobl yr amcangyfrifir eu bod wedi bod yn byw gyda salwch terfynol yng Nghymru yn 2023-24.

5.2. Gan gyfrif am y rhai a allai fod eisoes yn derbyn gostyngiadau'r dreth gyngor, mae 26,809 yn gymwys i gael gostyngiadau'r dreth gyngor o dan ein cynnig.

5.3. Cyfanswm cost flynyddol hyn yw **£28,857,169.** Mae hyn yn gynnydd o 9.6% ar wariant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2023-24.

5.4. Mae'r amcangyfrif o gostau fesul awdurdod lleol wedi'u nodi yn y tabl isod.

| Awdurdod Lleol | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|
| Blaenau Gwent | £624,335 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,335,368 |
| Caerffili | £1,358,742 |
| Caerdydd | £2,388,507 |
| Sir Gaerfyrddin | £2,019,891 |
| Ceredigion | £784,164 |
| Conwy | £1,457,568 |
| Sir Ddinbych | £1,152,824 |
| Sir y Fflint | £1,494,706 |
| Gwynedd | £1,149,017 |
| Ynys Môn | £707,051 |
| Merthyr Tudful | £519,066 |
| Sir Fynwy | £1,234,979 |
| Castell-nedd Port Talbot | £1,341,545 |
| Casnewydd | £1,202,133 |
| Sir Benfro | £1,246,711 |
| Powys | £1,550,533 |
| Rhondda Cynon Taf | £1,796,960 |
| Abertawe | £2,241,182 |
| Torfaen | £840,108 |
| Bro Morgannwg | £1,222,070 |
| Wrecsam | £1,230,815 |
| **Cymru** | £28,857,169 |

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

5.5. Mae'r amcangyfrifon uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod pawb sy'n byw gyda salwch terfynol yng Nghymru yn cael ffurflen SR1. Ar hyn o bryd, mae llawer llai o bobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn hawlio budd-daliadau o dan y rheolau arbennig.

5.6. Ym mis Mai 2025, roedd cyfanswm o 4,306 o bobl yng Nghymru yn hawlio naill ai Taliadau Annibyniaeth Personol neu Lwfans Presenoldeb o dan y rheolau arbennig[1]. Felly, mae'n hynod debygol, pan gaiff ei gyflwyno gyntaf, y bydd ein gostyngiad arfaethedig ar dreth gyngor i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn costio'n sylweddol llai na'r amcangyfrifon uchaf a nodir yn y tabl uchod.

[1] Yn seiliedig ar ddata a gafwyd trwy Stat Xplore – Achosion PiP gyda Hawl o 2019 / Lwfans Presenoldeb gyda hawl o Fai 2018 [Wedi'i gyrchu 10.12.25]

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.